

WOGAN (TEULU), Sir Benfro

Tybir mai GWGAN AP BLEDDYN, arglwydd Brycheiniog, oedd cyndad y gwahanol ganghennau o deulu'r Woganiaid (yr oedd canghennau ym Mhictwn, Boulston, Casgwís, Llanstinan, Stonehall, a mannau eraill yn Sir Benfro, yn ogystal ag yn Iwerddon a Lloegr) a phriododd un o'i ddisgynyddion etifeddes Casgwís, gwraig o hil Wîzo'r Ffleinwr, arglwydd Daugleddau.

(1) Pictwn.

Yr aelod cyntaf o'r teulu a fu'n enwog ydoedd Syr JOHN WOGAN, ustus Iwerddon, un o Woganiaid Pictwn, ond ni wyddys nemor ddim am ei rieni na'i fywyd cynnar. Darllenir amdano gyntaf yn 1281 a 1290 pryd y bu'n cynnal ymchwiliadau yng Nghymru dros y brenin, ond y mae'n debyg fod ganddo hefyd gysylltiad ag Iwerddon cyn 1284. Ar ôl ei benodi'n un o farnwyr swydd Gaerefrog yn 1293, gwnaed ef yn ustus Iwerddon yn 1295. Yn ystod y cyfnod y bu'n gwasnaethu yn y swydd hon daeth yn berchen ar stadau helaeth yn Iwerddon. Naill ai yr oedd iddo fab o'r un enw ag ef ei hun a fu hefyd yn ustus Iwerddon (fel yr awgryma [Francis Green](#), yn *W. Wales Records*, vi, 176), neu fe'i hailbenodwyd i'r swydd yn 1308 a gweithredu ynddi tan 1313. Ei wraig oedd Margaret (bu farw 1302), merch ac un o gyd-etifeddion Robert de Valle (Dale), arglwydd Castell Gwalchmai (Walwyn's Castle). Sefydlodd Syr John Wogan, arglwydd Pictwn (fel y'i gelwid), siantri Sain Niclas yn eglwys gadeiriol Tyddewi yn 1302 a dywedir mai yno y'i claddwyd. Trwyddo ef hefyd y cyflwynwyd maenor Cas Morus ym Mhebiidog yn rhodd i esgob Tyddewi yn 1302. Bu farw 1321. Penodwyd ei fab a'i etifedd, Syr THOMAS WOGAN (ganwyd c. 1311) yn swyddog y siêd yn Iwerddon yn 1338 ac enillodd ganmoliaeth a gwobr y brenin am ei wasanaeth yno ac yng Nghymru a'r Alban. Bu farw 1357. Ei orwyr, JOHN WOGAN (bu farw cyn 1420), ydoedd yr olaf o Woganiaid Pictwn yn y llinach agnatig.

(2) Casgwís.

Hyd yn hyn ni phenderfynwyd y wir berthynas rhwng Woganiaid Pictwn a Chasgwís. Bu teulu Casgwís, tîrfeddianwyr cefnog yn Neugleddau, yn flaenllaw ym mywyd lleol y cylch, yn enwedig yn y 15fed ganrif. Urddwyd nifer ohonyn yn farchogion - Syr JOHN WOGAN (bu farw 1419), ei wyr Syr HENRY WOGAN, stiward iarllaeth Penfro yn 1448 (ei wraig oedd Margaret, merch [Syr William Thomas - yn ddiweddarach Herbert - o Raglan](#)), a'i fab Syr JOHN WOGAN a briododd â Matilda, merch ac etifeddes William Clement, arglwydd Geneu'rglyn yng Ngheredigion; lladdwyd ef ym mrwydr Banbury ar 26 Gorffennaf 1469 ([H. T. Evans](#), *Wales and the Wars of the Roses*, 109-10, 176, 184). Wyr Syr John Wogan ydoedd y Syr JOHN WOGAN hwnnw a fu'n rhingyll yn siambr y brenin. Rhoddwyd iddo swyddi yn Sir Benfro a Sir Aberteifi am ei wasanaeth yn Lloegr ac mewn gwledydd tramor. Bu'n siryf Sir Aberteifi yn 1542 a 1556 a Sir Benfro yn 1543 a 1554. Ei wraig oedd Anne, etifeddes William ap Phillip o Stonehall, Sir Benfro. Bu farw 23 Awst 1557. Bu ei w yr, JOHN WOGAN, yn siryf Sir Aberteifi yn 1564 a Sir Benfro yn 1567 a 1572. Ei wraig oedd Cecil, merch [Syr Edward Carne](#) o Briordy Ewenni, Sir Forgannwg. Bu farw 4 Mai 1580. Urddwyd ei etifedd, Syr WILLIAM WOGAN (bu farw 1625), yn farchog cyn 1611 a phriododd Sibyl, merch [Syr Hugh Owen o Orielton](#). Gwraig eu mab, Syr JOHN WOGAN (1588 - 1644), oedd Jane, merch Syr Thomas Colclough o Tintern, sir Wexford; priodwyd hwy cyn 1628. Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Bu'n siryf Sir Benfro yn 1636 ac yn aelod seneddol drosti yn 1614, 1620-2, 1625, 1626, 1628-9, 1640, a 1640-4. Trydydd mab i Syr John Wogan o'i wraig Jane Colclough ydoedd y cynrol THOMAS WOGAN, 'y teyrnleiddiad.' Yn ystod y Rhyfel Cartrefol bu'n amlwg yn yr ymladd o blaid y Senedd, gan godi i safle captan, ac yna yn gyrrwr. Ym mis Mawrth 1648 anfonodd Cromwell ef i Gymru i gynorthwyo ailsefydlu'r heddwch yn Sir Benfro a'r siroedd cyfagos. Cafodd ganmoliaeth gan y cynrol Thomas Horton am ei wasanaeth yn yr ymladd a chyrrhaeddodd ei anterth ym mrwydr Sain Ffagan ar 8 Mai 1648. Bu'n aelod seneddol dros fwrdeisdref Aberteifi yn 1646-53 ac yn y cyfnod hwnnw cyflwynodd gais oddi wrth breswylwyr y dref am ysgol rydd i Aberteifi. Yn Ionawr 1649 efe oedd un o farnwyr y brenin ac arwyddodd y warant i'w ddiennyddio. Yr oedd yn aelod o'r Senedd yn 1659 ('the Rump Parliament'). Ar ôl adfer y frenhiniaeth gosodwyd ef ar brawf, ac ar 6 Mehefin 1660 gwnaed eithriad ohono yn yr 'Act of Oblivion.' Ar ôl iddo'i roi ei hun i fyny ar 27 Mehefin 1664, carcharwyd ef, ond ar 27 Gorffennaf 1664 dihangodd o'r Twr gyda charcharorion eraill. Ymddengys iddo ffoi i Holand, ac yn 1660 clywir amdano yn Utrecht. Yr oedd yn fyw o hyd yn 1669 (*Trans. Cymm.*, 1946 -7, 214). Trigai'r Woganiaid yng Nghasgwís hyd oni werthwyd y stad i John Campbell (yr arglwydd Cawdor) yn 1794.

(3) Boulston.

Yn y 15fed ganrif priododd Henry Wogan o Milton, mab i Syr John Wogan o Gasgwís, â Margaret Dyer o Boulston, ac o'r briodas hon y disgynnodd Woganiaid Boulston. JOHN WOGAN, mab i Richard Wogan o Boulston o'i wraig Matilda, merch [Syr Thomas Philipps o Gilsant](#), oedd siryf Sir Benfro yn 1566, 1574, 1584, a 1598 ?, ac yn aelod seneddol dros sir Benfro yn 1545-7 a 1553 ([Williams](#), *The parliamentary history of the principality of Wales*, 154). Urddwyd ef yn farchog cyn 25 Tachwedd 1597. Priododd (1) â Jane, merch Richard Wogan o Gasgwís, a (2) ag Elizabeth, merch Robert Byrte o Llwyndyrus, Sir Aberteifi. Cysylltwyd ei enw â'r ymchwiliadau ynglyn â môr-ladrata yn 1564-90. Bu farw 1601. Urddwyd JOHN WOGAN, ei fab o'i wraig gyntaf, yn farchog hefyd. Dywed [Williams](#) (*Parl. Hist.*, 155) iddo fod yn aelod seneddol dros sir Benfro yn 1571, c. 1576 neu 1581-3. Bu'n ddirprwy-raglaw (1595-1600) ac yn siryf (1606-30) Sir Benfro. Priododd (1) â Frances Pollard (bu. farw 1623), merch Lewis Pollard o Kingsnympton, Dyfnaint, a (2) â Margaret (ni wyddys merch pwy ydoedd). Bu farw 14 Medi 1636. Bu ei wyr, ABRAHAM WOGAN, ail fab i Maurice Wogan (1583 - 1640) o'i wraig Frances, merch [Syr Hugh Owen o](#)

[Orielson](#), yn siryf Sir Benfro yn 1648. Bu farw Ionawr 1652. Ei fab ef oedd LEWIS WOGAN (c. 1649 - 1702); addysgwyd ef yng Ngholeg Iesu, Rhydychen (1665-?) a bu'n siryf Sir Benfro yn 1672. Ei wraig oedd [Katherine Philipps](#) o'r Priordy, Aberteifi. Yn 1714 daeth Woganiaid Gawdy Hall, Norfolk, yn berchen ar stad Boulston.

(4) Llanstinan.

Sefydlwyd cangen o'r teulu yn Llanstinan gan REES WOGAN, mab i Syr John Wogan o Boulston, a briododd Jenet, cyd-etifeddes Llewelyn Lloyd o Lanstinan. Cododd ei wyr, WILLIAM WOGAN, ail fab Thomas Wogan, i safle o fri yn y gyfraith. Derbyniwyd ef yn aelod o Gray's Inn ar 23 Mai 1653 a'i alw i'r Bar ar 1 Mehefin 1660. Gwnaed ef yn siersiant y brenin ar 4 Mai 1689. Bu'n gweithredu fel prif ustus cylch Caerfyrddin yn y sesiwn fawr, 1689-1701. Bu hefyd yn aelod seneddol dros Hwlfordd yn 1679, 1685-7, a 1689-1701, a thros sir Benfro yn 1681. Urddwyd ef yn farchog ar 21 Hydref 1689. Priododd (1) ag Elizabeth (bu farw 1697), merch a chyd-etifeddes Syr John Ashburnam a gweddw Syr John Jacob o Bromley, Middlesex, barwnig, a (2) â Mary (bu farw 1708), merch Dame Elizabeth Purbeck o Hatton Gardens, Middlesex, a Viscount Purbeck. Bu farw 1 Tachwedd 1708.

(5) WOGAN, WILLIAM (1678 - 1758), awdur llyfrau ar grefydd CrefyddLlenyddiaeth ac Ysgrifennu,

trydydd mab Ethelred Wogan, rheithor Gumfreston (1665-1686?), ac offeiriad Penalun (Penally), Sir Benfro, a oedd naill ai'n wyr i Ethelred Wogan, siryf a maer Hwlfordd yn y cyfnod 1623-47 (*W. Wales Records*, vii, 11-2), neu'n un o Woganiaid Lisburne yn Iwerddon. Dywedir mai chwaer i Robert Williams o Gefn-gorwydd ym mhlwyf Casllwchwr, Sir Gaerfyrddin, oedd ei fam (bu farw 1732), ac ar ôl i'w dad farw (cyn 13 Chwefror 1686) yng Nghefn-gorwydd y'i magwyd. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Abertawe ac Ysgol Westminster (1694), a'i dderbyn i Goleg y Drindod, Caergrawnt, ar 5 Mehefin 1700. Gadawodd y brifysgol heb radd a chymerodd swydd athro, ac yna swydd clerig, yn nheulu Syr Robert Southwell. Yn 1712 ymunodd â'r fyddin. Ei wraig oedd Catherine Stanhope (bu farw 1726) ac ymgartrefodd yn Ealing o thua 1727 ymlaen. Yno ysgrifennodd nifer o weithiau crefyddol, yn cynnwys *Essay on the Proper Lessons of the Church of England*, 1753. Yr oedd William Wogan yn ddyn duwiol a chanddo gyfeillion lawer ymhlith arweinwyr efengylaidd ei oes. Bu farw 24 Mehefin 1758.

Awdur

Dr Bertie George Charles, (1908 - 2000)

Darllen Pellach

Thomas Phillipps, George Owen, *Pedigree of Wogan of Bouleston, Co. Pembroke (from George Owen's MSS, at Middle Hill, No. 12380, in 1860)*(Middle Hill Press c.1867)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q8029056](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

